# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden a'r Gymuned)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolydd Gwasanaethau Tai (HR) (Eitem 12 yn unig)<br>Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Margaret Foster a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, K. Evans, G. W. Roberts OBE, S. Williams. |

Draft

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd E. G. Davies

**CYFLWYNIADAU**

(i) Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes ar ran y Cyngor i'r Henadur Mrs M. A. Edwards MBE, cyn-aelod o Gyngor Rhanbarth Gwledig Aethwy a Chyngor Bwrdeistref Ynys Môn ar achlysur dathlu ei 100fed penblwydd ar 2 Awst 2011.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb byr o yrfa Mrs Edwards mewn Llywodraeth Leol a chafodd y Cynghorwyr W. J. Chorlton, R. G. Parry, J. V. Owen ac E. Schofield gyfle i dalu eu teyrngedau eu hunain. Diolchodd Mrs Edwards i'r Cyngor a'r Aelodau am eu geiriau caredig a dymunodd yn dda i bawb i'r dyfodol. Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) dusw o flodau i Mrs Edwards. Gwahoddwyd Mrs Edwards i aros yn y Siambr am yr eitemau oedd yn weddill ar y rhaglen.

(ii) Cyflwynodd y Cadeirydd wobrau i'r aelodau canlynol o dîm llwyddiannus Ynys Môn oedd wedi bod yn Gemau'r Ynysoedd yn ddiweddar ar Ynys Wyth:-

- Brea Leung – Medal Arian Taflu Disgen i Ferched
- Michael Thorne a Robyn Cox - Medal Aur Tîm Hwylio.

  Nid oedd dau aelod arall o'r Tîm Hwylio, Michael Thorne a Robyn Cox yn gallu bod yn bresennol heddiw ac fe dderbyniwyd eu gwobrau ar eu rhan gan Dave Tommis a Dawn Russell o Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn.

(iii) Cyflwynwyd - Cyflwyniad gan Mr. Howard Davies, Prif Weithredwr, Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Rhoddodd gyflwyniad byr i'r Cyngor ar waith yr AHNE'au, a'u hanes a'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu yn y Gymru sydd ohoni heddiw.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a chael atebion yn dilyn y cyflwyniad.

**1 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 12 Mai, 2011
- 12 Mai, 2011 (Cyfarfod Blynyddol)
- 9 Mehefin 2011 (Arbennig)
- 13 Gorffennaf 2011 (Arbennig)
- 8 Awst 2011 (Arbennig)

Materion yn codi –

<u>**Eitem 4 – Panel Ymchwilio**</u>

**(a)** **PENDERFYNWYD newid y 6ed penderfyniad i ddarllen fel a ganlyn:-**

***"Bydd unrhyw weithredu pellach yn dibynnu'n hollol ar a fydd y Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu a ddylid penodi Person Annibynnol Dynodedig (PAD) ai peidio ac os gwneir hynny, a fydd y PAD yn argymell bod cymryd camau disgyblu'n briodol. Os bydd hynny'n digwydd, fodd bynnag, byddai'n rhaid sefydlu Pwyllgor Disgyblu i ystyried y camau i'w cymryd. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i ddewis Pwyllgor Disgyblu gyda'r niferoedd a'r rheolau ynglŷn â'i aelodaeth yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Ymchwilio, a phenodi Aelodau'r Pwyllgor Disgyblu mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol".***

(b) Ar gais y Cynghorydd A. Morris Jones, nodwyd y dylai'r gair *'drafft'* gael ei gynnwys cyn y geiriau *'argymhelliad Swyddfa Archwilio Cy*mru' yn y drydedd linell yn y paragraff olaf ond un o'r cofnod.

(c) Cytunodd y Cyngor â chais y Prif Weithredwr bod sesiwn breifat yn cael ei chynnal ar ddiwedd y cyfarfod heddiw fel y gallai adrodd yn ôl i'r Cyngor ar y camau a gymerwyd ers y cyfarfod o'r Cyngor ar 8 Awst 2011.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

Drafft

**3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Roedd y Cadeirydd am longyfarch pawb o'r Ynys a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam a hefyd yn y Sioeau Amaethyddol dros yr haf.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd yr Ynys oedd wedi bod yn llwyddiannus gyda'u harholiadau TGAU a Lefel A. Dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol a phob llwyddiant i'r rhai fyddai'n mynd i'r Coleg am y tro cyntaf.

Roedd y Cyngor yn hynod o falch bod cyn ddisgybl o Ysgol Uwchradd Bodedern, George North wedi cael ei ddewis yn rhan o Dîm Rygbi Cymru i chwarae yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd. Dymunwyd yn dda iddo ac i'r tîm yn y gystadleuaeth.

Roedd gwybodaeth wedi ei derbyn gan Ray Williams, Ffederasiwn Codi Pwysau Cymru, yn llongyfarch Gareth Evans ar ei lwyddiant mewn nifer o gystadlaethau codi pwysau yn ddiweddar. Gareth fyddai'r unig gystadleuydd yn cynrychioli Ynys Môn yn y Gemau Olympaidd yn 2012 yn Llundain – y cyntaf yn hanes Clwb Codi Pwysau Caergybi ers iddo gael ei sefydlu 40 mlynedd yn ôl.

Llongyfarchwyd ef gan y Cadeirydd a dymunodd bob llwyddiant iddo yn y Gemau Olympaidd yr haf nesaf.

Estynnwyd cydymdeimlad dwysaf y Cyngor i deulu, cyfeillion a chydweithwyr Siân Crewdson, a fu farw ar 27 Awst 2011. Roedd Siân wedi gweithio yn y Cyngor am 21 mlynedd ac roedd yn gweithio ar y pryd yn yr Adain Gyfieithu fel Swyddog Cefnogi Dwyieithrwydd. Roedd Siân yn weithwraig ddistaw a chydwybodol a fydd yn cael ei cholli'n fawr iawn.

Estynnwyd cydymdeimlad hefyd i deuluoedd y ddau ŵr ifanc oedd wedi boddi ym Mhorth Trecastell yn ddiweddar, Lewis Darroch o'r Fali a Callum Mackay o Lanfairpwll ac roedd y Cyngor yn gweddïo drostynt i gyd yn eu colled drist.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Aled Morris Jones ddweud ychydig o eiriau ynglŷn â dengmlwyddiant digwyddiad 9/11 yn Efrog Newydd. Diolchodd i'r Cyngor am hedfan y baneri ar hanner mast i gofio'r diwrnod erchyll hwnnw. Yn yr un modd, yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r Awdurdod hwn wedi croesawu dynion tân o Ddinas Efrog Newydd yma. Roedd yn drist iawn i gofio bod bron i 3,000 o bobl farw ar y dyddiad hwnnw, 67 ohonynt yn ddinasyddion y DU, ac roedd tros fil o bobl oedd wedi marw ar y diwrnod hwnnw yn rhai heb fedd iddynt. Roedd geiriau Virgil yn briodol iawn *"No day shall erase you from the memory of time"*. Gofynnodd i'r Cadeirydd ysgrifennu i Lysgennad America i gyfleu cydymdeimlad yr Ynys am yr hyn a ddigwyddodd ar y diwrnod hwnnw.

Roedd y Cadeirydd am gydymdeimlo hefyd gydag unrhyw aelod o'r Cyngor neu staff oedd wedi colli perthynas.

Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

**4 ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTER CYNTAF Y COMISIYNWYR**

(a) Cyflwynwyd – Cafwyd cyflwyniad gan y Comisiynydd Alex Aldridge.

(b) Cyflwynwyd er gwybodaeth, ymateb Carl Sargeant GC, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Lywodraeth Leol a Chymunedau i'r adroddiad chwarterol.

Dywedodd y Comisiynydd Aldridge nad oedd yn bwriadu mynd trwy'r ddogfen dudalen wrth dudalen a nododd bod y Comisiynwyr eisoes yn gweithio ar Chwarter 2, ac y byddai'r adroddiad hwnnw yn fwy pendant yn ei gynnwys. Byddai yn yr adroddiad hwnnw fwy o amcanion i'r aelodau eu harchwilio a byddai'n galluogi i'r Gweinidog weld yn union beth oedd wedi cael ei gyflawni ac a fyddai'n cael ei gyflawni yn ystod yr 2ail Chwarter.

Draft

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am eglurhad ar rai pwyntiau yn yr adroddiad.  Yr un cyntaf oedd pwynt 70 a phwynt 103 oedd yn cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith cyntaf a'r rheolau am siarad mewn cyfarfodydd. Roedd yn credu bod y rheolau hynny eisoes yn bodoli o dan Gyfansoddiad y Cyngor, oedd yn dweud bod gan Aelodau'r Pwyllgor Gwaith cysgodol hawl i siarad gerbron y Bwrdd. Roedd aelodau eraill y Cyngor hefyd wedi dewis ymarfer eu hawliau.  Gofynnodd am eglurhad ar y ddau bwynt yna i ddechrau.

Wrth ateb, fe ddywedodd y Comisiynydd Alex Aldridge mai ei ddealltwriaeth glir ef oedd y dylai aelod roddi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw am unrhyw faterion yr oedd yn dymuno ei godi yn y Bwrdd. Roedd y protocol yn gofyn am i rybudd o 24 awr gael ei roi cyn dyddiad y cyfarfod pe bai Aelod etholedig yn dymuno siarad ar unrhyw eitem. Pwynt y mater oedd bod yn rhaid i'r rhybudd fod yn ysgrifenedig.

Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn cytuno gyda'r Comisiynydd, sef bod gan aelodau yr hawl honno eisoes o dan y Cyfansoddiad a'i fod bob amser wedi ymarfer yr hawl yn unol â'r Cyfansoddiad. Ei bwynt ef oedd bod y Comisiynwyr yn rhoi i'r Aelodau rywbeth oedd gan yr Aelodau yn barod o dan y Cyfansoddiad.  Dim ond pwynt bychan ydoedd, ond roedd yn teimlo bod yn rhaid iddo gael ei nodi.

Pwynt 103 - roedd yn cyfeirio at y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod y cofnod hanesyddol yn dangos mai dim ond dau Gomisiynydd oedd yn bresennol ar y diwrnod hwnnw a'u bod yn pasio polisïau oedd wedi'u rhoi at ei gilydd cyn hynny gan Swyddogion a Chynghorwyr.  Roedd yn cofio bod y Comisiynwyr wedi eu canmol hwy ar y pryd. Roedd ychydig yn bryderus gyda'r sylwadau yn yr adroddiad oedd yn dweud na fyddent wedi mynd trwodd pe na bai am y Comisiynwyr.  Dyna oedd y cwestiwn oedd ganddo, oherwydd yr oedd yn groes i ysbryd yr hyn yr oedd y Comisiynwyr wedi'i ddweud ar y diwrnod.

Dywedodd y Comisiynydd Alex Aldridge y gallai'r Cynghorydd fynd dros hyn oll dro ar ôl tro ond ei fod ef yma i symud ymlaen.  Roedd yn cydnabod ei fod yn codi mater arbennig, ond ar ddiwedd y dydd, a'i dyma'r cyfan yr oedd am ei dynnu allan o'r darn sylweddol hwn o waith?

Cynghorydd Aled Morris Jones – Y pwynt oedd, beth bynnag fydd yn digwydd yma rhaid iddo gael ei seilio ar ffeithiau.  Roedd pethau wedi digwydd yma yn y gorffennol oedd wedi'u seilio ar ffantasi yn llawer rhy fynych, ac nid cyfeiriad at y Comisiynydd oedd hynny gyda phob dyledus barch, ond roedd yn teimlo bod yn rhaid i'r cofnod hanesyddol fod yn gywir.  Dyna oedd y pwynt yr oedd yn ceisio ei wneud yma.  Nid oedd yn gwneud unrhyw ffafrau â'r Aelodau ond roedd yn ceisio adrodd y ffeithiau cywir.

Y ddau bwynt arall, Pwynt 43 - Gwasanaethau Cymdeithasol; nid oedd unrhyw sylw'n cael ei wneud o'r ffaith wleidyddol bod yr awdurdod hwn wedi rhoi arian i'r adran lai na blwyddyn yn ôl fel cefnogaeth.  Nid oedd yn sylw teg yn yr adroddiad gan nad oedd yn cymryd i ystyriaeth bod yr holl Awdurdod y tu ôl i'r Adran ar y pryd.  Roedd yna Ddeilydd Portffolio cydnabyddedig oedd wedi cyflawni llawer iawn yn yr adran.  Unwaith yn rhagor, nid oedd yr adroddiad yn gwneud cyfiawnder â'r Awdurdod hwn, ac i'r un graddau, roedd Pwynt 84 yn ymwneud â Wylfa yr un mor bwysig.  Yr oedd yn sylweddoli bod y Gweinidog wedi defnyddio Wylfa a datblygu Ynys Ynni fel rheswm dros ei ymyrraeth.  Roedd hynny'n hanesyddol.  Roedd y gair 'stalled' wedi'i ddefnyddio yma. Yn ystod eu cyfarfod cyntaf, roedd y Comisiynwyr yn derbyn polisïau yr oedd yr Aelodau yn eu cefnogi ynglŷn â llety, ac unwaith yn rhagor ei bwynt ef oedd, bod yr awdurdod yn symud ymlaen, ond wrth wneud hyn roedd yn rhaid i hynny gael ei seilio ar ffeithiau, a bod y sylfaeni yn gadarn.  Roedd yr Awdurdod hwn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu Wylfa B.  Ni fyddai Horizon wedi bod yma pe bai gan hyn oll unrhyw beth i'w wneud â'r Cynulliad, ond yr oedd yr aelodau yn croesawu popeth yr oedd y Cynulliad yn ei wneud yn awr, ond roedd yn teimlo'n drist bod y sylwadau hyn wedi'u cynnwys mewn darn mor ardderchog o waith.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai yna unrhyw drafodaeth bellach ar y mater.

**5  CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

Draft

**6  NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

(Noder: Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a byddir yn ceisio eu cymeradwyaeth i'r newidiadau hyn, ond gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion y cyfeirir atynt yn 6.1 a 6.2 isod).

**6.1  RHEOLAU GWEITHDREFN Y GYLLIDEB**

(a)  Adroddwyd – I'r Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2011 benderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir a Gweinidogion Cymru eu bod yn derbyn y newidiadau yn Atodiad 4 o reolau gweithdrefn y gyllideb a chymeradwyo eu hychwanegiad i Gyfansoddiad y Cyngor yn 4.3 ac i awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad;"*

Cyflwynwyd – Atodiad 4 adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 25 Gorffennaf 2011.

Gofynnodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE, am eglurhad ar yr argymhelliad *"awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad."*

Mewn eglurhad, fe ddywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro - weithiau pan fydd rhywun yn newid rhan o'r Cyfansoddiad, bydd yn rhaid adlewyrchu'r newid hwnnw mewn rhannau eraill o'r Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad uchod gan y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru.**

**6.2  MESUR LLYWODRAETH LEOL 2011 A CHYFETHOL AELODAU LLEYG**

(a)  Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2011 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru fel a ganlyn :-

- *"Eu bod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel a nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad gyda'r amod bod y dirprwyo cyfredol o dan 3.4.8.1(xi) yn parhau'n effeithiol trwy gydol 2011, ac i awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad;*
  **[Hwn oedd y newid i Gyfansoddiad y Cyngor]**

- *Ei fod yn dirprwyo'r broses o benodi Aelodau Lleyg i'r Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.*

- *Bod yr hysbyseb a'r rhestr hir ar gyfer ceisiadau'r aelodau lleyg yn cael eu trefnu gan Adnoddau Dynol a bod y broses yn adlewyrchu arferion da mewn prosesau recriwtio fel y gall Cyllid ac Adnoddau Dynol ddarparu rhestr fer gytunedig o ymgeiswyr addas i'w penodi i'r Pwyllgor Archwilio."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Comisiynwyr i'r Gweinidogion Cymreig yn y pwynt bwled cyntaf y cyfeirir ato uchod.**

**7  ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2011-12**

(a)  Adroddwyd bod y  Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2011 yn dilyn ystyried yr uchod, wedi penderfynu *"bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor Sir i'w ystyried a bod awdurdod yn cael ei roddi yn y cyfamser i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ymgynghori ymhellach gydag arweinwyr y grwpiau i baratoi ymateb i'r ymgynghoriad."*

Draft

(b) Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 5 Medi 2011.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Croesawu'r ffaith y bydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) yn pennu cyflogau'r Cynghorwyr yn y dyfodol ac felly yn cymryd y penderfyniadau allan o'r arena wleidyddol.**

**(b) Gwrthwynebu'n gryf y penderfyniad i gyfyngu nifer y cyflogau uwch i 15, hyn hefyd i gynnwys y Penaethiaid Dinesig, gan na fydd y rhif hwn yn caniatáu i'r ystod o gyfrifoldebau o fewn yr Awdurdod gael eu cydnabod yn iawn. Y mae hefyd yn cyfyngu'n ormodol ar y darpariaethau statudol sydd yn caniatáu hyblygrwydd i gael hyd at 10 o aelodau ar y Pwyllgor Gwaith a rhai pwyllgorau angenrheidiol, y cyfan ohonynt gyda chadeiryddion;**

**(c) Mynegi'r farn bod lwfansau cadeiryddion y Pwyllgorau ac Arweinydd yr Wrthblaid wedi cael eu pennu'n rhy uchel o gymharu â lwfansau aelodau'r Pwyllgor Gwaith os bwriedir i'r rhain fod yn swyddi amser llawn;**

**(ch) Gofidio am y pwyslais a roddwyd gan yr IRP i gynghorwyr y Pwyllgor Gwaith fod yn rhai amser llawn oherwydd fe allai hyn fod yn rhwystr i rai sydd ag ymrwymiadau eraill o ran busnes neu ddyletswyddau gofal sefyll mewn etholiad.**

**(d) Cefnogi na chaiff aelodau'r Pwyllgor Gwaith dderbyn cydnabyddiaeth ychwanegol am swyddogaethau ar gyrff allanol;**

**(dd) Croesawu'r newid i wahardd hawlio lwfans cynhaliaeth o fewn ardal yr Awdurdod, gan y bu hyn yn nodwedd o gynllun lwfansau Ynys Môn ers peth amser;**

**(e) Peidio â chefnogi lwfans gorfodol (ar wahân i lwfans teithio a chynhaliaeth) i aelodau a gyfetholwyd, gan na fu angen i'r Awdurdod hwn dalu lwfansau o'r fath er mwyn recriwtio i'r swyddogaethau hyn.**

**(f) Tynnu sylw at y ffaith bod yr IRP wedi gadael allan y rhai a gyfetholwyd i'r Pwyllgor Archwilio, pan fydd y rhain yn dod yn orfodol dan y Mesur Llywodraeth Leol 2011, tra'n cefnogi safbwynt y Pwyllgor Archwilio nad oes angen talu unrhyw gydnabyddiaeth (ar wahân i gostau teithio a chynhaliaeth) i'r rhai a gyfetholwyd. Mae angen i'r IRP hefyd fynd i'r afael â'r posibilrwydd y gall person a gyfetholwyd gadeirio'r Pwyllgor Archwilio.**

**(ff) Nodi bod gan yr Awdurdod hwn ddisgrifiadau swydd ac adolygiadau o ddatblygiad personol yn barod ar gyfer Cynghorwyr a fydd yn cefnogi sylwadau'r IRP mewn perthynas ag atebolrwydd.**

## 8 EITHRIAD I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT MEWN PERTHYNAS Â'R GWAITH ARFAETHEDIG AR Y GOFEB, CAERGYBI

Cyflwynwyd er gwybodaeth, yn unol â pharagraff 4.5.16.10 o Gyfansoddiad y Cyngor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

[Noder: Ymdriniwyd â'r mater hwn fel mater brys yng nghyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr ar 25 Gorffennaf 2011. Mae'r Cyfansoddiad yn dweud bod yn rhaid i benderfyniadau a gymerwyd fel mater o frys gael eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor i roi'r rhesymau am y brys].

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Draft

*(Roedd y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Raymond Jones, T. Ll. Hughes, J. V. Owen a J. A. Roberts yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oeddent wedi cymryd unrhyw ran mewn unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y mater).*

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2010/11**

Adroddwyd – bod yn rhaid i'r Cyngor, yn dilyn rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 lunio adroddiad blynyddol ar reoli'r trysorlys fyddai'n adolygu'r gweithgareddau hynny a hefyd y dangosyddion pwyllog a dangosyddion y trysorlys am 2010/11. Roedd yr adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Pwyllog).

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys perfformiad y benthyca a'r buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2010/11 fel yr ymddangosant yn yr adroddiad.**
- **Nodi'r adroddiad blynyddol ar reoli'r trysorlys 2010/11.**

**10 CYTUNDEB DARPARU CDLl AR Y CYD**

Adroddwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) – Bod y Cyngor hwn a Chyngor Gwynedd wedi dechrau ar y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Môn a Gwynedd. Yn unol â'r Rheoliadau sy'n delio gyda pharatoi CDLl ar y cyd, y cam cyntaf yn y broses oedd paratoi Cytundeb Darparu.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar:

- Swyddogaeth y Cytundeb Darparu
- Y broses o baratoi'r Cytundeb Darparu hyd yn hyn
- Y camau nesaf

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno dogfen y 'Cytundeb Darparu' (Atodiad 1), dogfen Hunanasesu (Atodiad 2) a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 3). Roedd y Rheoliadau'n dweud bod yn rhaid i'r Cytundeb Darparu gael ei fabwysiadu trwy benderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd cyn ceisio cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Cynigiodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE welliant (a gafodd ei eilio) bod y mater yn cael ei ohirio a bod Seminar yn cael ei gynnal gyda'r Aelodau i fynd trwy'r swmp o wybodaeth oedd gerbron y Cyngor heddiw er mwyn trafod rhai materion lleol o bwys.

Dywedodd y Cynghorydd W. J. Chorlton y byddai'n ddoethach peidio â gweithredu felly gan nad oedd hwn yn newid mewn polisi ond yn gytundeb darparu a oedd i'w gytuno gyda LlCC. Byddai cynnal Seminar yn oedi'r broses o gael y cytundeb darparu yn ei le.

Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones hefyd o'r farn y dylai'r Cyngor symud yn ei flaen heddiw a derbyn yr adroddiad ond gyda'r amod bod Seminar yn cael ei gynnal i drafod y pryderon oedd wedi'u lleisio yn y cyfarfod heddiw.

Ni chafodd y gwelliant gan y Cynghorydd G. O. Parry MBE ei gario a phleidleisiwyd ar yr argymhelliad gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD**

- **Mabwysiadu'r Cytundeb Darparu yn Atodiad 1 yr adroddiad fel y gellir ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru am ei gymeradwyaeth.**

Draft

- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i wneud rhai newidiadau bychain i'r Cytundeb Darparu pe bai eu hangen yn dilyn derbyn sylwadau Llywodraeth Cymru.**

**11 CANIATÁU STATWS RHYDDFRAINT I GATRAWD FRENHINOL CYMRU**

Adroddwyd – Ar 8 Mawrth 2011, fe gefnogodd y Cyngor Sir Rybudd o Gynigiad gan y Cynghorydd Aled Morris Jones a phenderfynwyd fel a ganlyn:-

*"y dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr gychwyn ar broses o ymgynghori gyda'r partïon perthnasol ar ganiatáu Rhyddfraint Sir Ynys Môn i'r Gatrawd Frenhinol Gymreig. Mae hyn i gydnabod eu gwasanaeth i'r genedl."*

Yn dilyn yr uchod, roedd trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r Uwch Gapten (wedi ymddeol) T. P. Wheadon, Ysgrifennydd Cynorthwyol Catrawd Frenhinol Cymru, ynglyn â threfniadau.

Er mwyn gallu rhoi Rhyddfraint y Sir, rhaid rhoi sylw i brotocolau a gweithdrefnau arbennig ac i achlysur seremonïol wedi'i drefnu i fodloni rhai meini prawf penodol, ac roedd manylion am y rhain ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad. Amcangyfrifwyd fod cost cynnal digwyddiad o'r fath ar gyfartaledd tua £6,000, ac am nad oedd digon o arian ar gael yn y gyllideb ddinesig, byddai angen sicrhau darpariaeth o'r gronfa digwyddiadau arbennig.

Oherwydd dyletswyddau gweithredol yn Afghanistan y flwyddyn nesaf, mae'r Uwch Gapten Wheadon yn awgrymu na ellir trefnu dyddiad hyd nes y byddant wedi dychwelyd a'r posibilrwydd oedd y byddai gorymdaith yn cael ei threfnu, os rhoddir y Rhyddfraint, ar gyfer Gwanwyn 2013. Clustnodwyd 27 Ebrill 2013 ar gyfer digwyddiad o'r fath. Bu gan Gaergybi berthynas agos gyda'r Lluoedd Arfog dros y blynyddoedd ac er mwyn adlewyrchu'r berthynas honno, argymhellir bod y Seremoni Rhyddfraint a'r Orymdaith yn cael eu cynnal yn y dref ar y dyddiad hwnnw. Byddai'n rhaid i Gyngor Tref Caergybi fod â rhan yn hyn oll ar dîm y prosiect.

Dywedodd y Cynghorydd A. Morris Jones mai Catrawd Frenhinol Cymru oedd wedi olynu'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Nid oedd gan yr hyn oedd yn cael ei gynnig unrhyw beth i'w wneud â rhyfel ond yn hytrach roedd yn ceisio dangos parch a diolchgarwch i'r rhai oedd wedi gwasanaethu yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Roedd yna bennill a ysgrifennwyd gan filwr ym Mhalesteina yn 1917:-

"Yn y dwyreiniol barth o'r byd,
y 'rwyf fi heno yn canu,
pe byddai modd fe roddwn naid,
a disgyn draw yng Nghymru."

Y ffiwsilwr hwnnw oedd ei daid pan oedd yn gwasanaethu ym Mhalesteina.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gofyn am gyfarfod arbennig o Arweinyddion Grwpiau cyn y cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor i drafod caniatáu statws Rhyddfraint y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru.**

**12 ADRODDIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr - I Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 15 Mehefin 2011 ddosbarthu adroddiad yn unol ag Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ynglyn â'i ymchwiliad i gŵyn wnaed yn erbyn y Cyngor (Cyfeirnod Achos yr Ombwdsmon 2009 002 138).

Yn yr Adroddiad, roedd yr Ombwdsmon wedi canfod achos o gamweinyddu yn erbyn y Cyngor ac wedi gwneud argymhellion i'r Cyngor. Roedd yr Adroddiad yn un cyhoeddus ac yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried yr Adroddiad, ei ganfyddiadau a'i argymhellion o fewn 3 mis i ddyddiad yr Adroddiad. Roedd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn fel y gallai'r Cyngor llawn ystyried gofynion yr Adroddiad a chyflwyno ymateb i'r Ombwdsmon.

Roedd yr Ombwdsmon wedi casglu bod y Cyngor yn euog o gamweinyddu systemig fel a ganlyn:-

Draft

- Diffyg trefniadau priodol, trefniadau gwael ar gyfer cadw cofnod a diffyg cefnogaeth TG i reoli a blaenoriaethu achosion o ddigartrefedd a hynny'n golygu nad oedd ceisiadau Ms A i'r Cyngor bob amser yn cael sylw fel y dylent (paragraff 151 ar dudalennau 40 a 41 o'r Adroddiad).

- Y Cyngor sawl gwaith yn methu ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael ynglyn â chais Ms A yn unol â pholisi ac wedi methu asesu'r pwyntiau a ddyfarnwyd i Ms A o ran yr angen am dŷ. Roedd hyn yn ei dro wedi rhwystro Ms A rhag derbyn cynnig o lety diogel gan y Cyngor mewn ardal o'i dewis ym Medi 2005 (paragraff 160 ar dudalen 43 yr Adroddiad).

- Methiant i gynnig llety dros dro, cam-ffeilio cais Ms A a methiant wedi hynny i flaenoriaethu ei hachos i gael tŷ arall ar unwaith yn wyneb y risg barhaol o drais a hynny'n golygu na chafodd Ms A gynnig llety dros dro addas am gyfnod pellach o 4 blynedd a hanner (paragraff 161 ar dudalennau 43 a 44 o'r Adroddiad).

Roedd y Swyddogion yn derbyn canfyddiadau'r Ombwdsmon o gamweinyddu ac yn argymell bod yr aelodau'n penderfynu derbyn y canlyniadau hynny hefyd. Fodd bynnag, roeddent yn dymuno iddo gael ei nodi – er eu bod yn derbyn bod yna feiau camweinyddu yng ngheisiadau Ms A - nid oeddent yn derbyn y byddai hyn wedi rhagfarnu'r cynnig o lety parhaol a wnaed ym mis Medi 2005. Roeddent yn derbyn, fodd bynnag, nad oedd yna ddigon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r farn hon.

Roedd y Swyddogion hefyd yn derbyn argymhelliad yr Ombwdsmon ynglyn ag iawndal ac yn argymell bod y Cyngor yn gwneud hynny hefyd. Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i ymddiheuro i'r Cyngor am y camweinyddu oedd wedi digwydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. P. Williams at y methiant mewn system. Nid hwn oedd yr unig amser i gyfeiriad gael ei wneud at fethiant tebyg yn y Cyngor. Ceisiodd gael sicrhad na fyddai methiannau eraill mewn systemau yn digwydd yn y dyfodol?

Wrth ateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai popeth oedd yn rhesymol bosibl yn cael ei wneud er mwyn sicrhau na fyddai yna unrhyw fethiannau systemig. Fodd bynnag, roedd yn amhosibl dweud i sicrwydd na fyddai yna unrhyw fethiant mewn unrhyw system yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a chytuno gydag Adroddiad yr Ombwdsmon, ei ganfyddiadau a'i argymhellion.**

- **Mabwysiadu'r argymhellion ym mharagraffau 171 a 172 yr Adroddiad (tudalennau 47 a 48) ac awdurdodi Swyddogion i weithredu ar yr argymhellion hynny o fewn y cyfnodau amser oedd wedi'u nodi gan yr Ombwdsmon.**
- **Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnig ymddiheuriad ysgrifenedig i Ms A a'i theulu am y camweinyddu.**

**13 DIRPRWYO**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, fanylion yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol a gyflawnwyd gan y Comisiynwyr ers y cyfarfod cyffredin diwethaf (Rheol 4.4.1.4 y Cyfansoddiad yng nghyswllt Rheolau Gweithdrefn).

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**14 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, un o gynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mai 2011 a 31 Awst 2011.

Adroddwyd - Bu'r chwarter olaf yn gyfnod prysur iawn i'r Awdurdod gyda thros 30,000 o wiriadau diogelwch tân yn cael eu gwneud trwy Ogledd Cymru. Dywedodd bod y gwaith siecio hwn ar gael yn



Draft

rhad ac am ddim i'r cyhoedd ac anogodd yr aelodau i fynd â'r neges hon yn ôl i'w hetholaethau. Talodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan Frigâd Dân Caergybi gyda'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc. Fe gafwyd parêd yn ddiweddar ac roedd yn beth braf iawn gweld y gwaith oedd yn cael ei weld gyda'r bobl ifanc hyn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**15 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mai a 31 Awst 2011.

Roedd y Cynghorydd Rogers yn dymuno mynegi ei ddiolch am y gefnogaeth a'r cymorth yr oedd wedi'i derbyn gan yr Awdurdod hwn gyda'i achos ei hun yn erbyn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod rhai aelodau wedi ysgrifennu geirda iddo heb i neb ofyn iddynt wneud hynny. Roedd yn teimlo'n wylaidd iawn gyda'r holl gefnogaeth yr oedd wedi'i derbyn.

Nid oedd y mater hwnnw wedi effeithio ar ei rôl fel cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Fe gafwyd newidiadau mawr i'r Awdurdod ac roedd y toriadau a wnaed wedi eu derbyn yn gyffredinol. Dywedodd ei fod yntau yn gwasanaethu ar y Pwyllgor yng nghyswllt yr adeiladu newydd yn Wylfa a bod diweddariadau'n cael eu derbyn gan y Swyddogion oedd wedi teithio i Ewrop i weld sut y maent yn delio gyda rhai o'r materion oedd angen eu datrys gyda'r adeiladau newydd.

Roedd hefyd yn gwasanaethu ar Grŵp Aelodau sy'n Adolygu Gwasanaethau Trosedd ac fe allai fod yn ymweld â dociau Caergybi yn y dyfodol agos. Byddai'n adrodd yn ôl ar ganlyniad y cyfarfod hwnnw i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Mynegodd y Cynghorydd Raymond Jones bryder gan ddweud er bod yr Heddlu i'w gweld o amgylch ardal doc Caergybi, nid oedd yr un ohonynt i'w gweld ar strydoedd Caergybi. Roedd un W.P.C.O wedi'i symud o Gaergybi i Amlwch. Roedd hefyd yn ei chael hi'n anodd i gael yr Heddlu i ddod allan yn dilyn galwadau.

Mewn ymateb dywedodd y Cynghorydd P. S. Rogers y byddai'n trafod y mater hwn gyda'r Cynghorydd Jones ar ôl y cyfarfod hwn gyda golwg ar ymholi i'w bryderon. Dywedodd bod Heddlu'r Porthladd yn Uned Blismona benodol ar gyfer Porthladdoedd a'u bod ar wahân i'r heddlu llinell flaen.

Holodd y Cynghorydd T. Ll. Hughes paham fod celloedd yr Heddlu yng Nghaergybi ar gau o ddydd Llun i ddydd Gwener a pham yr oedd y rhai oedd yn y ddalfa'n cael eu trosglwyddo mewn car gyda dau swyddog i gelloedd yng Nghaernarfon?

Wrth ateb dywedodd y Cynghorydd P. S. Rogers y byddai'n trafod y mater gyda'r Cynghorydd Hughes ac yn anfon ei sylwadau ymlaen. Anogodd yr aelodau i fynychu cyfarfodydd ymgysylltu yn y gymuned leol er mwyn lleisio eu pryderon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. E. Jones at benodi Comisiynydd Heddlu i Ogledd Cymru. Pa gynlluniau paratoi oedd yn eu lle i weithio gyda'r Comisiynwyr ac a fyddai gan yr Awdurdod hwn gynrychiolydd yn y dyfodol ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru?

Wrth ateb, dywedodd y Cynghorydd P. S. Rogers y byddai'n rhaid i unrhyw drosglwyddiad ynglyn â hyn ddigwydd mor llyfn ag oedd yn bosibl. Nid oedd y sylwadau gan awdurdodau lleol wedi'u cwblhau ac roedd yn credu bod yna nifer o faterion cynhennus ar ôl i'w datrys.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Draft

Daeth y cyfarfod i ben am 3:10pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**

Draft